**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Rhagfyr 2013

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â'r Lluosydd Ardrethi Annomestig ar gyfer 2014-15. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Canghellor yn Natganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr, ei fod yn gosod cap o 2% ar y cynnydd i'r Lluosydd Ardrethi Annomestig ar gyfer 2014-15 yn Lloegr. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dilyn yr un drefn fel nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â busnesau yn Lloegr. Mae'n amlwg y byddai peidio â gwneud hynny yn effeithio ar economi Cymru.

Mae'r darpariaethau sy'n ymdrin â chyfrifo'r Lluosydd i'w gweld yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Fel arfer caiff y Lluosydd ar gyfer blwyddyn benodol ei gyfrifo drwy gymryd Lluosydd y flwyddyn gynt a defnyddio graddfa chwyddiant y mis Medi blaenorol, yna rhannu'r lluoswm â thrydydd ffigur. Byddai'r cap yn golygu na fyddem yn dilyn y drefn arferol ar gyfer cynyddu'r Lluosydd, ac felly mae angen inni, o dan Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, osod Gorchymyn sy'n destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Rhaid gosod y Gorchymyn hwn ar gyfer ei gymeradwyo cyn y ddadl i gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol, gan ei fod yn sail ar gyfer cyfrifo'r ffigurau yn yr Adroddiad o dan Ran III o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Roedd trefniadau eisoes wedi'u gwneud i gynnal y ddadl ar yr Adroddiad hwn ar 14 Ionawr 2014 pan wnaed Datganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Mae amseriad Datganiad yr Hydref yn golygu na fydd modd gosod y Gorchymyn a chaniatáu'r cyfnod craffu sy'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog, cyn y ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar 14 Ionawr. Yn wir, ni fyddai wedi bod modd cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog hyd yn oed pe byddem yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Lluosydd a'r cynigion ariannu, a phe byddem wedi gallu gosod Gorchymyn ar yr un diwrnod â'r Datganiad.

Byddai gohirio'r ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yn creu anawsterau sylweddol i Awdurdodau Lleol. Rhaid iddynt gytuno ar eu cyllidebau a phennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer 2014-15 o fewn cyfnodau statudol caeth. Mae angen cymeradwyo'r Gorchymyn yn fuan hefyd fel y gall Awdurdodau Lleol fabwysiadu'r Lluosydd er mwyn paratoi biliau ardrethi annomestig. Bydd hyn hefyd yn darparu eglurdeb i fusnesau er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Er mwyn sicrhau bod modd cynnal y ddadl ar yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar 14 Ionawr, fel y trefnwyd, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fodlon ystyried y Gorchymyn cyn y dyddiad hwnnw. Gorchymyn byr fydd hwn, yn ymdrin â'r newid i'r Lluosydd yn unig. Mae fy swyddogion eisoes wedi rhoi copi o'r Gorchymyn drafft i'ch swyddogion chi, a byddai fy swyddogion yn falch o ddarparu gwybodaeth dechnegol, pe byddai hynny o gymorth.

Rwy'n sylweddoli ei bod yn anodd gwneud trefniadau fel hyn yr adeg hon o'r flwyddyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ateb buan.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business